| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**BRO'R WENYNEN, GWENT 2027** |
| | **Cystadleuaeth 163 – Perfformiad Theatrig i Grŵp Bl.7, 8 a 9** |
| | **Wennol Fach, Nesta Wyn Jones** |

Wennol fach sydd yn ffarwelio
Mynd ar aden isel heibio,
A than ewin gwan o leuad
Mynd a wnaeth fy annwyl gariad.

Fe ddaw'r wennol yma eto
Nôl i'w nyth o dan y bondo,
A bydd rhes o bigau'n llydan,
Minnau yma wrthyf f'hunan.

Dysgu'r cywion sut i hedfan
Dros y cefnfor gloyw, arian -
Fe ddaw dydd eu llon ddychwelyd,
Ond ni welaf byth f'anwylyd.